# Canllaw ar y Gofrestr Contractau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 2
Lefel Mynediad 'Gweinyddwr Contractau' ........ 2
Statws 'Gweinyddwyr ar gyfer y contract' ........ 3
Defnyddio a Deall y Gofrestr Contractau Preifat ........ 5
Poblogi'r Gofrestr Contractau drwy Hysbysiadau Dyfarnu ........ 9
Poblogi'r Gofrestr Contractau drwy gofnodion â llaw ........ 9
Diwygio cofnodion eich cofrestr contractau ........ 11
Adnoddau Rheoli Contractau ........ 24
Gosod e-byst atgoffa i adnewyddu contract ........ 24
Lawrlwytho eich Cofrestr Contractau ........ 30
Contractau yn ôl y gofyn o Gytundebau Fframwaith ........ 33
Contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) ........ 37
Cofrestr Contractau Cyhoeddus ........ 38
Rhagor o wybodaeth ........ 41
ATODIAD A – Deall meysydd y gofrestr contractau ........ 42


## Cyflwyniad

Mae'r modiwl Cofrestr Contractau yn darparu'r cyfleuster i sefydliadau prynu weithredu cofrestr breifat o'r holl gontractau sydd ganddynt ar waith. Mae hyn yn cynnwys contractau a roddwyd ganddynt eu hunain a chontractau cydweithredol y maent yn gymwys i brynu ohonynt, megis y rhieni a gaiff eu cynnal gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae'r opsiwn i gyhoeddi cofrestr gyhoeddus o'r contractau hyn hefyd ar gael.

Mae cofnod yn cael ei ychwanegu at y gofrestr contractau yn awtomatig bob tro y caiff hysbysiad dyfarnu ei gyhoeddi drwy GwerthwchiGymru. Mae gan brynwyr hefyd yr opsiwn i ychwanegu cofnodion â llaw a diwygio cofnodion sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod eu contractau'n gyfredol.

## Lefel Mynediad 'Gweinyddwr Contractau'

Gall defnyddwyr â lefel mynediad 'Gweinyddwr Contractau' ddiwygio'r gofrestr contractau. Gall unrhyw ddefnyddiwr â mynediad Rheolydd neilltuo'r lefel hon i ddefnyddiwr arall drwy fynd iPanel Rheoli'r Prynwr > Rhestr Defnyddwyr, dewis y defnyddiwr yr hoffent ei ddiwygio a thicio "Gweinyddwr Contractau" ac yna "Cadw".



## Statws 'Gweinyddwyr ar gyfer y contract'


Dim ond 'Gweinyddwyr Contractau' sydd â'r awdurdod cyffredinol i wneud newidiadau i unrhyw rai o gontractau eich sefydliad. Fodd bynnag, gall y 'Gweinyddwr Contractau' neilltuo statws 'Gweinyddwyr ar gyfer y contract hwn' i ddefnyddwyr unigol ar gyfer contractau penodol. Mae hyn yn golygu bod gan y defnyddiwr yr un rheolaethau diwygio â'r Gweinyddwr Contractau ond dim ond ar gyfer y contract hwnnw.

I neilltuo'r statws Gweinyddwr Contractau hwn ar gyfer contract penodol, dewiswch y tab 'Gweinyddu/Hysbysu' o'r dudalen **Gweld Contract**:



Bydd yr adran 'Gweinyddwyr ar gyfer y contract hwn' yn arddangos unrhyw ddefnyddwyr a all fod wedi cael y statws 'Gweinyddwyr ar gyfer y contract hwn' yn barod.

I roi'r statws hwn i ddefnyddiwr, dewiswch ddefnyddiwr o'r gwymplen 'Ychwanegu gweinyddwr newydd' a dewiswch y botwm **Ychwanegu**.





Gallwch ailadrodd y broses hon i roi'r statws hwn i fwy o ddefnyddwyr.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Defnyddio a Deall y Gofrestr Contractau Preifat


I gael gafael ar Gofrestr Contractau eich sefydliad, ewch i [Banel Rheoli'r Prynwr]() a dewiswch 'Cofrestr Contractau' o dan Sefydliad.




Bydd hwn yn eich cyfeirio at Banel Rheoli'r Cofrestr Contractau lle y gallwch reoli cofnodion eich cofrestr.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk




Mae'r wybodaeth ganlynol i'w gweld ar y panel rheoli:

**Mae eich Cofrestr Contractau Cyhoeddus Ymlaen/Wedi'i Throi Ffwrdd**
Mae hyn yn dangos p'un a all y cyhoedd weld cofrestr contractau cyhoeddus eich sefydliad ai peidio. Gall Rheolydd ar gyfer eich sefydliad newid yr opsiwn hwn drwy ddiwygio'r gosodiad ar y dudalen Newid Manylion Prynwr.



## Diwygio Manylion y Sefydliad

Dangosir manylion eich sefydliad isod. Diwygiwch y manylion rydych am eu newid ac yna *cliciwch ar* y botwm **Cadw** i barhau.

**Noder:** Rhaid nodi'r rhif ffôn/ffacs rhyngwladol e.e.: +44 140633900 neu +44 222020-43657 (est).

* Gwybodaeth ofynnol.

**Sefydliad**

| | |
|---|---|
| * Enw: | Millstream Associates Ltd |

**Manylion y Sefydliad**

| | |
|---|---|
| * Cyfeiriad 1: | Queens Road |
| Cyfeiriad 2: | |
| Tref/Dinas: | Aberdeen |
| Cod Post: | AB15 4ZT |
| Gwlad: | United Kingdom (GB) |
| * Ffôn: | +44 1224650000 |
| Ffacs: | |
| Gwefan: | http://www.sell2wales.gov.uk |
| Cyfeiriad E-bost Cyffredinol: | help@sell2wales.gov.uk |
| Rhif cyfeirnod: | not sure |
| Math o Awdurdod: | Corff a Lywodraethir gan Gyfraith Gyhoeddus |

**NUTS Code**

Dewiswch yr israniad daearyddol priodol o'r ddewislen ac yna dewiswch "Ychwanegu".

* Lleoliad:

UKM50 - Aberdeen City an

**Gwybodaeth am y Cyfrif**

| | |
|---|---|
| Enw Cyswllt: | Account Manager |
| Adran: | Accounts |
| Cyfeiriad 1: | Administration Building, |
| Cyfeiriad 2: | |
| Tref/Dinas: | Aberdeen |
| Cod Post: | AB392xy |
| Gwlad: | United Kingdom (GB) |

**Cofrestr Contractau Cyhoeddus**

You can choose to hide all of your contracts in the Contract Register (regardless of their visibility) by turning your Public Contracts Register off.

◉ On ○ Off

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Contractau a Gwblhawyd**

Mae'r adran Contractau a Gwblhawyd yn eich galluogi i reoli'r holl gynigion a gwblhawyd yn eich cofrestr contractau fel a ganlyn:

*Gweld Contractau Cyhoeddus* – Mae hyn yn rhoi mynediad at yr holl gontractau cyfredol a ddangosir ar eich cofrestr gyhoeddus. Os yw eich cofrestr contractau cyhoeddus wedi'i throi i ffwrdd, bydd y rhain ond yn weladwy pan fyddwch yn troi eich cofrestr contractau cyhoeddus ymlaen.
*Gweld Contractau Sydd Wedi Dod i Ben* – Mae hyn yn rhoi mynediad at bob un o gontractau eich sefydliad sydd wedi dod i ben.
*Gweld Contractau Cudd* – Mae gan prynwyr yr opsiwn i guddio contractau o'r gofrestr contractau cyhoeddus am amrywiaeth o resymau penodol. Mae hyn yn rhoi mynediad at y contractau cudd hynny. Os nad ydych yn bwriadu cyhoeddi eich cofrestr gyhoeddus, nid oes unrhyw reswm i chi guddio contractau.
*Lawrlwytho Pob Contract Cyfredol* – dolen gyflym i lawrlwytho holl gontractau cyfredol eich sefydliad p’un a ydynt wedi'u marcio'n gyhoeddus neu wedi'u cuddio.

**Contractau Newydd/Heb eu Cwblhau**

Mae'r cyfleuster hwn yn galluogi'r gwaith o ychwanegu cofnodion â llaw at y gofrestr lle nad yw hysbysiad dyfarnu wedi'i gyhoeddi.

Noder: Mae'r opsiwn hwn ond yn cael ei ddangos i'r defnyddwyr hynny sydd â lefel Mynediad Gweinyddwr Contractau.

Mae'r adrannau yn y panel hwn fel a ganlyn:

*Gweld Contractau Anghyflawn* – Mae hwn yn rhoi mynediad at unrhyw gofnodion sydd wedi'u creu â llaw ond heb eu cyhoeddi eto.
*Creu Contract Newydd* – Gall hwn gael ei ddefnyddio i greu cofnod cofrestr contractau newydd lle nad oes hysbysiad dyfarnu wedi'i gyhoeddi eto/lle nad oes ei angen.
*Creu Contract yn ôl y Gofyn* – Gall hwn gael ei ddefnyddio i greu cofnod cofrestr contractau newydd ar gyfer contract yn ôl y gofyn o dan gytundeb fframwaith sy'n bodoli eisoes.

## Poblogi'r Gofrestr Contractau drwy Hysbysiadau Dyfarnu


Pan fydd eich sefydliad yn cyhoeddi hysbysiad dyfarnu ar wefan GwerthwchiGymru, caiff cofnod ei gynnwys yn awtomataidd ar eich cofrestr contractau. Mae'r ffordd y caiff ei gyhoeddi ar y gofrestr yn dibynnu ar y math o hysbysiad a gyhoeddwyd. Gellir gweld pob hysbysiad dyfarnu drwy swyddogaethau creu dyfarniad GwerthwchiGymru.

Os caiff Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd neu hysbysiad dyfarnu lefel gwefan ei gyhoeddi, caiff cofnod y gofrestr ei ychwanegu yn awtomatig at eich cofrestr contractau cyhoeddus.

## Poblogi'r Gofrestr Contractau drwy gofnodion â llaw

Os oes gennych gontract ar waith nad oes ganddo hysbysiad dyfarnu cysylltiedig, mae gennych yr opsiwn i ychwanegu'r rhain â llaw at eich cofrestr contractau drwy Banel Rheoli'r Gofrestr Contractau.

Os hoffech gofnodi contract rheolaidd nad yw'n gontract yn ôl y gofyn o gytundeb fframwaith, dewiswch "Creu Contract Newydd".




Yna, mae'n rhaid i chi gwblhau holl fanylion y cofnod ar y gofrestr contractau, gan gynnwys cofnod o'r cyflenwyr llwyddiannus cyn dewis "cyflwyno".

Os hoffech gofnodi contract yn ôl y gofyn o gytundeb fframwaith, dewiswch "Creu contract yn ôl y gofyn". Yna, mae'n rhaid i chi gwblhau holl fanylion y cofnod ar y gofrestr contractau, gan gynnwys manylion am y fframwaith y mae'r contract yn ôl y gofyn yn perthyn iddo.



## Diwygio cofnodion eich cofrestr contractau

Gall unrhyw ddefnyddiwr sydd â mynediad Gweinyddwr Contractau ddiwygio unrhyw gofnod ar y gofrestr contractau sy'n perthyn i'w sefydliad prynu. Caiff pob newid ei ddiweddaru mewn amser real a chaiff ei adlewyrchu'n syth ar y gofrestr contractau preifat a chyhoeddus.

### *Manylion y Contract*

Gellir diwygio manylion sylfaenol y contract os bydd angen. I wneud hynny, dewiswch deitl y cofnod ar y gofrestr contractau:

| Cyfeirnod Dyfarnu | Teitl y Contract | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Dod i Ben | Dyddiad Dod i Ben Estynedig | Estyniadau Ar Gael (misoedd) | Fframwaith | Contract Yn Ôl y Gofyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DEC260055 | Testing Services | 16/01/2019 | 16/06/2019 | - | 5 | Na | Na |
| OCT260017 | Audit Services | 15/01/2019 | 15/02/2019 | - | 1 | Na | Na |
| OCT260018 | Insurance Services | 15/01/2019 | 15/02/2019 | - | 1 | Na | Na |
| NOV260043 | Office Equipment | 15/01/2019 | 15/02/2019 | 15/03/2019 | 0 | Na | Na |

Yna, dewiswch "Golygu" ar waelod y tab Manylion.

## Gweld Contract

Rydych chi yma: **Hafan** > **Cofrestr Contractau Panel Rheoli** > **Cofrestr Contractau Cyhoeddus** > Gweld Contract

Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Gweinyddu/Hysbysu

### Manylion y Contract

| | |
|---|---|
| Manylion Adnabod: | 83975 |
| Statws: | Published |
| Teitl: | Insurance Services |
| Math o Gontract: | SUPPLIES |
| Math o Weithdrefn: | Open |
| Cyfeirnod Hysbysiad o Ddyfarnu Contract: | OCT260018 |
| Cyfeirnod Mewnol: | Portal Ref: 83975 |
| Categori Contract: | C - contract lleol ar ran un prynwr sy'n contractio yn unig |
| Prynwr: | Millstream Associates Ltd (AA16166) |
| Prif God CPV: | N/a |
| Cod(au) CPV Ychwanegol: | |
| A yw'r contract hwn yn Fframwaith: | Na |
| Opsiynau: | ☐ Contract Cydweithredol |
| Disgrifiad: | test |
| Yn weladwy ar gofrestr gyhoeddus: | Ie |
| Contract Tymor: | Na |
| Anfonwyd e-bost atgoffa ar gyfer adnewyddu contract: | Na |
| Tîm Prynu: | N/a |

### Dyddiadau Contract

| | |
|---|---|
| Dyddiad Creu: | 02/10/2018 |
| Dyddiad y Dyfarnwyd: | 01/10/2018 |
| Dyddiad Dechrau: | 15/01/2019 |
| Dyddiad Dod i Ben: | 15/02/2019 |

### Estyniadau i Gontract

| | |
|---|---|
| Estyniad i Gontract: | Ymestyn y contract hwn |
| Terfynu'n Gynnar: | Terfynu'r contract hwn |

### Gwybodaeth Ychwanegol


Gwybodaeth Ychwanegol::

### Manylion cyswllt

| | |
|---|---|
| Enw Cyswllt: | Line |
| E-bost: | claire@thecouncil.gov.uk |


Golygu

Bydd hyn yn agor meysydd penodol o'r contract y gellir eu diwygio yn ôl yr angen. Ar ôl i chi ddiweddaru'r meysydd perthnasol, dewiswch "Diweddaru" ar waelod y tab.




**Darparu cyfieithiad o'r Cofnod ar y Gofrestr Contractau**

Gallwch ddarparu cyfieithiad o deitl y contract a'r disgrifiad. Bydd hyn yn golygu bod defnyddwyr sy'n edrych ar y cofnod drwy fersiwn iaith arall o wefan GwerthwchiGymru yn gweld y teitl a'r disgrifiad wedi'u cyfieithu. I wneud hynny, cliciwch ar y tab "Cyfieithu" a dilynwch y weithdrefn er mwyn golygu.




**Cuddio contract**

Os mai diben diwygio eich contract yw ei guddio o'ch cofrestr gyhoeddus, dylech ddad-ddewis yr opsiwn "Yn Weladwy ar y Gofrestr Gyhoeddus".


Golygu Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Gweinyddu/Hysbysu

**Manylion y Contract**

* Gwybodaeth ofynnol

* Teitl y Contract: Insurance Services
Cyfeirnod Hysbysiad o Ddyfarnu Contract: OCT260018
Cyfeirnod Mewnol: Portal Ref: 83975
* Math o gontract: Cyflenwadau
* Math o weithdrefn: Agor
Categori Contract: C - Contract lleol ar ran un prynwr.
* Dyddiad dyfarnu'r contract: 01/10/2018
* Dyddiad dechrau'r contract: 15/01/19 15/01/2019
* Dyddiad dod i ben y contract (heb gynnwys estyniadau): 15/02/19 15/02/2019
* Uchafswm cyfnod yr estyniad: 1 misoedd
* Enw Cyswllt: Line
* Cyfeiriad E-bost Cyswllt: claire@thecouncil.gov.uk
Contract Tymor: ☐
E-bost atgoffa ar gyfer adnewyddu contract:

Noder: Dewiswch dîm prynu o'r rhestr.Fel arall, **dewiswch** 'Ychwanegu tîm prynu newydd' er mwyn nodi enw'r tîm prynu newydd.Pan fyddwch yn diweddaru'r contract, caiff y tîm newydd ei ychwanegu at y contract hwn a chaiff hefyd ei ychwanegu at restr y tîm prynu.


Tîm Prynu: N/a Ychwanegu tîm prynu newydd

Yn weladwy ar gofrestr gyhoeddus: ☑

Os hoffech arddangos y contract ar y gofrestr gyhoeddus yn y dyfodol, ewch i'r ddolen 'Contractau Cudd' yn eich Panel Rheoli'r Gofrestr Contractau, dewiswch yr opsiwn "Yn Weladwy ar y Gofrestr Gyhoeddus" a dewiswch "Diweddaru" ar waelod y tab.

## Rhannu Contract i mewn i Lotiau

Os caiff contract ei rannu'n lotiau, gallwch gyfleu hyn drwy ddewis y tab "Golygu Cyflenwyr Llwyddiannus" ac, ar y tab "Lotiau", ychwanegu'r Teitl, Rhif Lot, Cynigion a gafwyd a dewis "Ychwanegu".


Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Gweinyddu/Hysbysu

**Cyflenwyr Llwyddiannus**

Gweler rhestr o'r holl gyflenwyr llwyddiannus ar gyfer y contract hwn isod. Gallwch ychwanegu cyflenwyr ychwanegol at y contract hwn drwy ddefnyddio'r adnodd chwilio isod. Gall Cyflenwyr hefyd gael eu dewis ar gyfer LOTIAU penodol (os yw'n berthnasol) a gellir hefyd ychwanegu un is-gontractwr neu fwy drwy'r tab Is-gontractwyr

Lotiau | Cyflenwyr

Os yw'r contract wedi'i rannu'n lotiau, nodwch fanylion y lot a *chliciwch* '**Ychwanegu**'. Gwnewch y cam gweithredu hwn unwaith ar gyfer pob lot. Ar ôl ychwanegu lotiau, gallwch eu *golygu* neu eu **dileu** o hyd. Os nad yw'r contract wedi'i rannu'n lotiau, ewch i'r adran Cyflenwyr.

| Teitl | Rhif Lot | Cynigion | Cyflenwyr | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| Lot 1 - Chairs | 1 | 5 | 2 | Gweld / Golygu |
| Lot 2 - Tables | 2 | 8 | 1 | Gweld / Golygu |
| Lot 3 - Telephones | 3 | 10 | 0 | Gweld / Golygu |

*Ychwanegu Lot*

* Teitl: Head Sets

* Rhif Lot: 4

* Cynigion a gafwyd: 7


Ychwanegu

Mae hyn yn eich galluogi i rannu'r holl gyflenwyr buddugol i'w lotiau perthnasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gliriach o'r contract.

Ar ôl creu'r lotiau, gellir diwygio manylion pob un ohonynt drwy ddewis "Gweld/Golygu" yng ngholofn Gweithredu'r tabl lotiau.

## Golygu Manylion y Cyflenwr

Gallwch ddiwygio manylion y cyflenwr drwy ddewis y tab "Cyflenwyr Llwyddiannus" ac yna'r tab "Cyflenwyr" a dewis "Gweld/Golygu" yng ngholofn Gweithredu'r tabl cyflenwyr.




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae'r meysydd y gellir eu diwygio fel a ganlyn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn rhif DUNS, Gwerth y Dyfarniad (gwerth y dyfarniad a wnaed i'r cyflenwr unigol hwn) a'r lot(iau) y mae'r cyflenwr wedi bod yn llwyddiannus ar ei chyfer/eu cyfer.

Ar ôl i chi ddiweddaru'r manylion, mae'n rhaid i chi ddewis "Diweddaru" i gadw'r newidiadau.



Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Gweinyddu/Hysbysu

**Cyflenwyr Llwyddiannus**

Gweler rhestr o'r holl gyflenwyr llwyddiannus ar gyfer y contract hwn isod. Gallwch ychwanegu cyflenwyr ychwanegol at y contract hwn drwy ddefnyddio'r adnodd chwilio isod. Gall Cyflenwyr hefyd gael eu dewis ar gyfer LOTIAU penodol (os yw'n berthnasol) a gellir hefyd ychwanegu un is-gontractwr neu fwy drwy'r tab Is-gontractwyr

Lotiau | Cyflenwyr

Gweler manylion y cyflenwyr llwyddiannus ar gyfer y contract hwn isod. I weld neu olygu manylion am gyflenwyr neu i'w neilltuo i lot, defnyddiwch y ddolen **gweld / golygu**.

| Rhif Lot | Enw | Tref | Rhif DUNS | Rhif DUNS | Gwerth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A business | Aberdeen | AB10 4ZT | 345903454 | £100.00 | Gweld / Golygu |
| 1, 2 | A company | Aberdeen | AB15 4ZT | 501461867 | £100.00 | Gweld / Golygu |

**Diweddaru Cyflenwr**

***Manylion y Busnes***

* Enw: A company

* Gwerth y Dyfarniad: 100

Rhif DUNS: 501461867

Lotiau:

- [x] 1 - Lot 1 - Chairs
- [x] 2 - Lot 2 - Tables
- [ ] 3 - Lot 3 - Telephones

***Manylion Cyswllt***

* Cyfeiriad 1: 10 Queens Road

Cyfeiriad 2:

Tref: Aberdeen

* Cod Post: AB15 4ZT

Gwlad: Armenia

Ffôn:


Diweddaru | Dileu | Canslo

## Dileu cyflenwr

I ddileu cyflenwr o'r contract, mae angen dilyn yr un camau â'r rhai ar gyfer golygu manylion cyflenwr, ond gan ddewis 'Dileu' yn lle 'Diweddaru'. Caiff cofnod archwilio ei wneud yn y panel Nodiadau yn erbyn y contract hwnnw.

## Ychwanegu cyflenwr

I ychwanegu cyflenwr at y contract, rhaid ei fod wedi'i gofrestru ar GwerthwchiGymru. I ddod o hyd i'w gofrestriad, gallwch chwilio drwy nodi enw'r cwmni, cod post, rhif DUNS neu unrhyw gyfuniad o'r tri a dewis "Chwilio". Caiff canlyniadau chwilio eu rhestru gyda'r opsiwn i "Ychwanegu" y cyflenwr hwnnw at y contract.




Gallwch olygu manylion y cyflenwr ar ôl iddo gael ei ychwanegu at y contract i ddarparu gwybodaeth am werth a lotiau os yw'n berthnasol.

### Ymestyn contract

Os yw estyniadau contract yn berthnasol i'r contract, gallwch eu rhoi ar waith drwy ddewis "Ymestyn y contract hwn" o dan 'Estyniadau Contract' yn y tab 'Manylion'.




Caiff yr estyniadau sy'n weddill sydd ar gael ar gyfer y contract eu harddangos ac mae'n rhaid i chi nodi am sawl mis rydych yn ymestyn y contract. Os oes nifer o gyflenwyr ar y contract ac nad ydych yn ymestyn y contract ar gyfer pob un ohonynt, gallwch ddad-ddewis cyflenwyr drwy ddad-ddewis y blwch yn y golofn "Ymestyn" cyn dewis "Diweddaru".





| Rhif Cyflenwr | Rhif Lot | Enw | Tref | Cod post | Rhif DUNS | Gwerth | Ymestyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | Millstream | Aberdeen | AB10 4ZT | 345903454 | £0.00 | ☑ |

Caiff dyddiad dod i ben y contract ei ddiweddaru a chaiff hyd yr estyniad mewn misoedd ei dynnu o nifer yr estyniadau sy'n weddill.




## Terfynu contract


Gellir terfynu contract ar unrhyw adeg cyn y dyddiad dod i ben. I derfynu contract, dewiswch "Terfynu'r contract hwn" o dan 'Estyniadau Contract' ar y tab 'Manylion'.




Wedyn, rhaid i chi nodi'r rheswm dros derfynu'r contract cyn dewis "Cadw". Caiff y rheswm a roddir ei ychwanegu at banel nodiadau'r gofrestr contractau preifat yn unig.




Caiff y dyddiad dod i ben ei ddiweddaru â dyddiad heddiw yn awtomatig a bydd y contract yn symud i'r rhestr o gontractau sydd wedi dod i ben gyda'r statws "Wedi'i Derfynu".





## Pennu Tîm Prynu

Gellir neilltuo contract unigol i dîm prynu. Gallwch greu timau prynu drwy'r ddolen "Rheoli Timau Prynu" yn eich Panel Rheoli'r Gofrestr Contractau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk




Ar ôl i dimau prynu gael eu creu, gallwch neilltuo contractau iddynt drwy olygu pob cofnod ar y gofrestr contractau.




# Adnoddau Rheoli Contractau

Darperir adnoddau rheoli contractau i helpu sefydliadau prynu gyda chyfathrebu mewnol sy'n ymwneud â chontractau.

## Gosod e-byst atgoffa i adnewyddu contract

Os yw'r contract yn gontract caffael rheolaidd sy'n debygol o gael ei ail-dendro, gallwch drefnu i e-bost atgoffa gael ei anfon at ddefnyddwyr dethol yn eich sefydliad prynu.

Dim ond 'Gweinyddwyr Contractau' a defnyddwyr â statws 'Gweinyddwyr ar gyfer y contract hwn' sy'n gallu pennu dyddiad atgoffa a dewis y defnyddwyr a ddylai gael yr e-bost atgoffa.

I ddewis defnyddiwr rydych am iddo dderbyn yr e-bost atgoffa, agorwch y tab 'Gweinyddu/Hysbysu' ac yn yr adran 'Hysbysiadau ar gyfer y contract hwn', dewiswch ddefnyddiwr o'r gwymplen a dewis **Ychwanegu**




Gallwch ailadrodd y broses hon er mwyn galluogi defnyddwyr ychwanegol i gael yr e-bost.

I bennu'r dyddiad rydych am i'r e-bost atgoffa gael ei anfon, dewiswch **Contract Tymor** ar y tab 'Golygu Manylion' a dewiswch ddyddiad i anfon yr e-bost atgoffa. (NODER: Os na fyddwch yn dewis **Contract Tymor** yn gyntaf, ni chaiff y dyddiad atgoffa ei dderbyn).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Gweld Contract

Rydych chi yma: **Hafan** > **Cofrestr Contractau Panel Rheoli** > **Cofrestr Contractau Cyhoeddus** > Gweld Contract

Golygu Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Gweinydd

### Manylion y Contract


* Gwybodaeth ofynnol

| | |
|---|---|
| * Teitl y Contract: | Testing Services |
| Cyfeirnod Hysbysiad o Ddyfarnu Contract: | DEC260055 |
| Cyfeirnod Mewnol: | Portal Ref: 84036 |
| * Math o gontract: | Gwasanaethau |
| * Math o weithdrefn: | Cyfyngedig |
| Categori Contract: | C - Contract lleol ar ran un prynwr. |
| * Dyddiad dyfarnu'r contract: | 10/10/2018 |
| * Dyddiad dechrau'r contract: | 16/01/19 16/01/2019 |
| * Dyddiad dod i ben y contract (heb gynnwys estyniadau): | 16/06/19 16/06/2019 |
| * Uchafswm cyfnod yr estyniad: | 5 misoedd |
| * Enw Cyswllt: | Claire |
| * Cyfeiriad E-bost Cyswllt: | :laire@the council.gov.uk |
| Contract Tymor: | ☑ |
| E-bost atgoffa ar gyfer adnewyddu contract: | 08/05/19 |

Caiff e-bost awtomataidd ei anfon i gyfeiriad e-bost y contract ar y dyddiad hwn. Gellir gosod negeseuon pellach drwy ddiwygio 'dyddiad e-bost atgoffa ar gyfer adnewyddu contract', a gellir gwneud hyn ar ôl i'r dyddiad presennol a ddewiswyd fynd heibio.

## Panel Nodiadau Contractau

Darperir tab Nodiadau yn erbyn pob contract. Mae'r tab nodiadau ond yn weladwy yn ardal y gofrestr contractau preifat, h.y. ni chaiff ei ddangos i gyflenwyr na'r cyhoedd. Dim ond Gweinyddwyr Contractau'r sefydliad prynu sy'n berchen ar y contract sy'n gallu ychwanegu at y panel nodiadau. Caiff diwygiadau i'r contract eu hychwanegu'n awtomatig at y panel nodiadau at ddibenion archwilio. I ychwanegu nodyn â llaw, dewiswch y tab Nodiadau, teipiwch y testun ac yna dewiswch 'Ychwanegu'.


Gweld Contract

Rydych chi yma: Hafan > Cofrestr Contractau Panel Rheoli > Cofrestr Contractau Cyhoeddus > Gweld Contract

Golygu Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Gweinyddu/Hysbysu

Nodyn:

(uchafswm o 4000 o nodau, mae 4000 ar ôl gennych) Ychwanegu

| Crëwyd | Pwy | Nodyn |
|---|---|---|
| 11/12/18 | Claire Murray | CONTRACT EXTENDED: Extended by 1 months from 16/06/2019 to 16/07/2019 |
| 11/12/18 | Claire Murray | Contract Details Updated |
| 11/12/18 | Claire Murray | Diweddarwyd Manylion y Contract |

**Panel Dogfennau Contract**

Darperir tab dogfennau yn erbyn pob contract ar gyfer lanlwytho dogfennaeth a chanllawiau contractau. Mae'r dogfennau ond yn weladwy yn ardal y gofrestr contractau preifat a dim ond aelodau o sefydliad perchennog y contract ac unrhyw sefydliad sy'n cydweithio ar y contract sy'n gallu eu gweld. Dim ond Gweinyddwyr Contractau'r sefydliad prynu sy'n berchen ar y contract sy'n gallu ychwanegu dogfennau neu eu tynnu oddi ar y gofrestr.

Gellir cyflwyno dogfennau yn y ddwy iaith a chânt eu harddangos yn seiliedig ar iaith y wefan. Rhaid i chi ddewis iaith y ddogfen rydych yn ei lanlwytho er mwyn pennu p'un a fydd yn ymddangos ar y tab "dogfennau cyfredol" neu'r tab "dogfennau cyfredol a gyfieithwyd".

I ychwanegu dogfen at y contract:

1. Rhowch ddisgrifiad o'r ffeil yn y maes 'Disgrifiad'. Ni ddylai hwn fod yn hwy na 100 o nodau.


2. Dewiswch iaith y ddogfen.

3. Dewiswch "Pori" wrth ymyl blwch Enw'r Ffeil.


3. Bydd hyn yn agor porwr ffeiliau sy'n eich galluogi i ddewis y ffeil yr hoffech ei lanlwytho o'ch ffeiliau eich hun. Dewiswch y ffeil rydych am ei lanlwytho a dewiswch "Agor"

4. Bydd hyn yn nodi llwybr ffeil eich dogfen wrth ymyl Enw'r Ffeil. Dewiswch "Ychwanegu" i lanlwytho'r ddogfen.

5. Bydd neges yn ymddangos ar y sgrin yn nodi bod y ddogfen wrthi'n cael ei lanlwytho. Ar ôl iddi gael ei lanlwytho, bydd yn ymddangos yn y rhestr Dogfennau Cyfredol, neu os cafodd ei chreu mewn iaith arall, yn y rhestr Dogfennau Cyfredol a Gyfieithwyd.




Os caiff dogfennau eu disodli neu os nad ydynt yn berthnasol mwyach, gallwch eu harchifo drwy glicio ar y blwch wrth ymyl y ddogfen berthnasol a dewis y botwm "Archifo". Bydd hyn yn symud y ddogfen o'r rhestr 'Dogfennau Cyfredol' i'r rhestr 'Dogfennau a Archifwyd' neu 'Dogfennau a Gyfieithwyd sydd wedi'u Harchifo'.





At ddibenion archwilio, ni ellir dileu dogfennau.

## Lawrlwytho eich Cofrestr Contractau

Gallwch lawrlwytho eich cofrestr contractau i ddogfen Excel neu CSV. Gellir gwneud hyn ar gyfer y rhestrau o gontractau cyfredol, contractau cudd a chontractau sydd wedi dod i ben. Os ydych wedi defnyddio'r opsiynau chwilio i hidlo'r rhestr, bydd yr hyn rydych yn ei lawrlwytho ond yn cynnwys y contractau a gaiff eu harddangos yn y rhestr.


I wneud hyn, dewiswch "Opsiynau lawrlwytho" ar frig y rhestr contractau.




Bydd y sgrin adeiladwr ymholiad canlyniadau yn dilyn. Ar y dudalen hon, gallwch ddewis y meysydd yr hoffech iddynt gael eu harddangos yn y broses allforio drwy ddewis neu ddad-ddewis y blychau ticio yn y maes diofyn a'r meysydd dewisol. Yna, dylech ddewis naill ai "Lawrlwytho fel dogfen excel" neu "Lawrlwytho fel dogfen CSV" ar waelod y sgrin.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk




Bydd y ffeil yn cynnwys llinell ar wahân ar gyfer pob contract a ddyfarnwyd i gyflenwr. Mae hyn yn golygu, os oes gan un contract ddeg cyflenwr, y caiff deg cofnod eu rhestru yn y ffeil.

Os hoffech lawrlwytho rhestr o'r holl gontractau cyfredol ni waeth p'un a ydynt yn gontractau cyhoeddus neu gudd, gallwch wneud hynny drwy ddewis 'Lawrlwytho pob contract cyfredol (cyhoeddus a chudd)' o Banel Rheoli eich Rhestr Contractau.



**Cofrestr Contractau - Panel Rheoli**

Ar hyn o bryd, mae eich **Cofrestr Contractau Cyhoeddus On**.

Gallwch newid y gosodiad hwn ar y dudalen **Newid Manylion Prynwr**.

Contractau a Gwblhawyd


- Gweld Contractau Cyhoeddus
- Gweld Contractau Sydd Wedi Dod i Ben
- Gweld Contractau Cudd
- Lawrlwytho Pob Contract Cyfredol (cyhoeddus a chudd)
- Rheoli Timau Prynu
- Canllawiau i Ddefnyddwyr

Contractau Newydd / Heb eu Cwblhau

- Gweld Contractau Heb eu Cwblhau
- Creu Contract Newydd
- Creu Contract Yn Ôl y Gofyn

# Contractau yn ôl y gofyn o Gytundebau Fframwaith

Os yw contract yn gontract yn ôl y gofyn o gytundeb fframwaith, gofynnir i chi ddewis i ba gytundeb fframwaith y mae'n perthyn pan gaiff ei greu. Gall hwn naill ai fod yn gytundeb fframwaith sy'n bodoli eisoes o fewn GwerthwchiGymru neu, fel arall, gallwch ychwanegu teitl ac URL i gytundeb fframwaith allanol.



**Manylion y Contract**

* Gwybodaeth ofynnol

A yw'r contract yn ôl y gofyn hwn yn gysylltiedig â chytundeb fframwaith yn eich cofrestr contractau?Os felly, a allwch gysylltu'r contract yn ôl y gofyn â'r fframwaith drwy ddod o hyd i'r cofnod yn eich cofrestr drwy ddewis 'dod o hyd i fframwaith'.Os nad yw'r cytundeb fframwaith ar eich cofrestr contractau, gallwch fwydo manylion y fframwaith â llaw.

* Dewiswch: (•) Dod o Hyd i Fframwaith ( ) Nodi manylion â llaw


Manylion Adnabod:

Teitl: gardening

Disgrifiad:

Enw'r Cyflenwr:

Chwilio



**Manylion y Contract**

* Gwybodaeth ofynnol

A yw'r contract yn ôl y gofyn hwn yn gysylltiedig â chytundeb fframwaith yn eich cofrestr contractau?Os felly, a allwch gysylltu'r contract yn ôl y gofyn â'r fframwaith drwy ddod o hyd i'r cofnod yn eich cofrestr drwy ddewis 'dod o hyd i fframwaith'.Os nad yw'r cytundeb fframwaith ar eich cofrestr contractau, gallwch fwydo manylion y fframwaith â llaw.

* Dewiswch: ○ Dod o Hyd i Fframwaith ◉ Nodi manylion â llaw

* Teitl y Fframwaith: Gardening Services

* URL y Fframwaith: works.gov.uk/gardeningservices

Pan gaiff contract yn ôl y gofyn ei gyflwyno yn erbyn cytundeb fframwaith o fewn GwerthwchiGymru, caiff ei ychwanegu at gofnod y cytundeb fframwaith gwreiddiol o dan y tab 'Contract yn ôl y Gofyn'.



**Gweld Contract**

Rydych chi yma: Hafan > Cofrestr Contractau Panel Rheoli > Cofrestr Contractau Cyhoeddus > Gweld Contract

Manylion | Cyfieithiad | Cyllid | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd | Nodiadau | Dogfennau | Contractau Yn Ôl y Gofyn | Gweinyddu/Hysbysu


| Manylion Adnabod | Prynwr | Teitl y Contract | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|---|
| 84034 | Millstream Associates Ltd | Gardening Services | 01/12/2018 | 11/12/2018 |

## Contractau Cydweithredol

Os yw contract yn gontract cydweithredol, gellir ei gynnwys ar gofrestr contractau sawl sefydliad prynu.

Dim ond y prynwr sy'n berchen ar y contract sydd â'r cyfleusterau i ddiwygio'r contract neu ychwanegu nodiadau neu ddogfennau, ond gall pob un o ddefnyddwyr sefydliad prynu cymwys weld y wybodaeth hon.

Yn ddiofyn, dim ond y contractau hynny y mae'r sefydliad prynu yn berchen arnynt a gaiff eu harddangos ar y Gofrestr Contractau. I weld contractau sefydliadau prynu eraill rydych yn gymwys i brynu ohonynt, dewiswch y blwch "Cynnwys contractau **cydweithredol** y mae'r sefydliad prynu hwn yn gymwys i brynu ohonynt" a chwiliwch.




**Ychwanegu contract cydweithredol at eich cofrestr**

Dim ond defnyddwyr dethol o sefydliad perchennog y contract sy'n gallu ychwanegu prynwyr cydweithredol at gontract. Os na allwch ddod o hyd i gontract cydweithredol a ddylai fod wedi'i gynnwys ar eich rhestr yn eich barn chi, cysylltwch â pherchennog y contract.

**Ychwanegu sefydliad prynu at eich contract cydweithredol – Hysbysiad o Ddyfarnu Contract**

Mewn hysbysiad o ddyfarnu contract, gofynnir i chi a yw'r contract yn gydweithredol ac, os felly, pa sefydliad prynu sy'n gymwys i brynu ohono. Bydd dewis y sefydliadau cymwys yn y cwestiwn hwn yn ychwanegu'r cofnod canlyniadol ar y gofrestr contractau at eu cofrestr contractau.

* Gwybodaeth ofynnol.

Ewch i gwestiwn: Mae'r awdurdod contractio yn prynu ar ran awdurdodau contractio | Ewch

Nesaf | Cadw | Canslo

* A fwriedir i awdurdodau contractio, ar wahân i'ch un chi, fod yn rhan o'r contract hwn?

○ Bwriedir ◉ Na

Os Bwriedir, rhowch y wybodaeth y gofynnir amdani isod:

**Math o gontract**

○ Categori A - contract cydweithredol cenedlaethol.

○ Categori B - contract cydweithredol sectoraidd.

○ Categori C1 - contract cydweithredol rhanbarthol neu leol a osodir ar ran mwy nag un awdurdod contractio.

◉ Categori C - contract lleol a osodir ar ran un awdurdod contractio yn unig.

**Collaborating Buyers - Contracts Register**


Below is a list of all buying organisations registered on Sell2Wales. Please select the buyers who will be party to this contract and click 'Update'. Ticking a category level box will select **ALL** of the buyers in that category. All buyers selected will have visibility of this contract in their Sell2Wales Contracts Register.

- ☐ Awdurdodau Lleol
- ☐ Sector Iechyd GIG Cymru
- ☐ Llywodraeth Cymru - Adrannau Craidd
- ☐ Llywodraeth Cymru - Asiantaethau
- ☐ Llywodraeth Cymru - Cyrff Cyhoeddus Anadrannol
- ☐ Llywodraeth Cymru - Arall
- ☐ Addysg - Addysg Uwch
- ☐ Addysg - Gynradd
- ☐ Addysg - Addysg Bellach
- ☐ Cyrff a ariennir yn gyhoeddus
- ☐ Parciau Cenedlaethol
- ☐ Tai
- ☐ Sefydliadau a Ariennir gan Ewrop
- ☐ Cynghorau Tref a Chymuned
- ☐ Elusennau a Chyrff a ariennir yn gyhoeddus
- ☐ Llywodraeth Ganolog y DU
- ☐ Gyrfa Cymru
- ☐ Contractwyr Arweiniol
- ☐ Heddlu
- ☐ Gwasanaeth Tân ac Achub
- ☐ Arall
- ☐ Cyllid gan Croeso Cymru
- ☐ Asiant

Diweddaru

**Ychwanegu sefydliad prynu at eich contract cydweithredol – Cofnod ar y Gofrestr Contractau**

Os nad yw'r sefydliadau cymwys wedi cael eu hychwanegu ar y cam dyfarnu contract, gall Gweinyddwr Contractau eu hychwanegu at y cofnod ar y gofrestr contractau. Gwneir hyn drwy ddewis y tab "prynwyr cydweithredol" yn y cofnod ar y gofrestr contractau a dewis y sefydliadau perthnasol o'r rhestr ac yna dewis 'Ychwanegu'.




## Contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC)

Mae'r GCC yn defnyddio'r adnodd Cofrestr Contractau i rannu manylion am eu cytundebau fframwaith cydweithredol â'r sefydliadau hynny sy'n gymwys i'w defnyddio.

Bydd y GCC yn ychwanegu pob sefydliad cymwys at bob contract fel y bydd y contract yn ymddangos ar y cofrestrau contractau perthnasol. I weld y contractau hyn rydych yn gymwys i brynu ohonynt, dewiswch y blwch ticio "Cynnwys contractau **cydweithredol** y mae'r sefydliad prynu hwn yn gymwys i brynu ohonynt" a chwiliwch.


Bydd teitlau contractau'r GCC yn dechrau â "GCC/NPS" fel ei bod yn hawdd eu

hadnabod. Os na allwch ddod o hyd i gontract y GCC ar eich cofrestr, cysylltwch â'r GCC.


## Cofrestr Contractau Cyhoeddus

Os byddwch yn dewis troi eich cofrestr contractau cyhoeddus ymlaen, bydd pob ymwelydd â gwefan GwerthwchiGymru yn gallu gweld pob contract ar eich cofrestr gyhoeddus.

Bydd tab newydd yn eich Proffil Prynwr yn darparu dolen i'ch cofrestr contractau cyhoeddus.





Os nad ydych wedi dewis gwneud eich cofrestr contractau yn gyhoeddus, bydd neges yn ymddangos yn y tab hwn, sef "Nid yw'r prynwr hwn wedi actifadu ei gofrestr contractau cyhoeddus. Cysylltwch â'r sefydliad yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth."




Bydd dewis y ddolen ar gyfer y gofrestr contractau yn dangos rhestr o'ch contractau cyhoeddus i'r defnyddiwr, gyda'r opsiwn i hidlo yn ôl categori, manylion adnabod,

teitl, disgrifiad ac enw cyflenwr. Mae ganddo hefyd yr opsiwn i gyfyngu ar y chwiliad i ddod o hyd i gontractau tymor yn unig neu ehangu'r chwiliad i gynnwys contractau sydd wedi dod i ben yn y rhestr o ganlyniadau.



**Chwilio am Gontractau**

☐ Chwilio am Gontractau Tymor yn unig
(Contractau y mae'r gofynion amdanynt yn debygol o fod yn rheolaidd ac sy'n cael eu rhoi ar dendr ar ddiwedd y cytundeb presennol)

☐ Cynnwys Contractau **Sydd Wedi Dod i Ben**

☐ Include **collaborative** contracts this buying organisation is eligible to purchase from

**Chwilio Categorïau**

Chwiliwch am gategori — Ewch

**Pori Categorïau**

Category: Y Cyfan — Ewch

**Chwiliad Uwch**

Manylion Adnabod

Teitl

Disgrifiad

Enw'r Cyflenwr

Chwilio

42 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 1 Ewch

Lawrlwytho fel dogfen Excel | Lawrlwytho fel dogfen CSV

| | Cyfeirnod Dyfarnu | Teitl y Contract | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Dod i Ben | Dyddiad Dod i Ben Estynedig | Estyniadau Ar Gael (misoedd) | Fframwaith | Contract Yn Ôl y Gofyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | DEC260055 | Testing Services | 16/01/2019 | 16/06/2019 | 16/07/2019 | 4 | Na | Na |
| | OCT260017 | Audit Services | 15/01/2019 | 15/02/2019 | - | 1 | Na | Na |
| | OCT260018 | Insurance Services | 15/01/2019 | 15/02/2019 | - | 1 | Na | Na |
| | NOV260043 | Office Equipment | 15/01/2019 | 15/02/2019 | 15/03/2019 | 0 | Na | Na |

Bydd dewis contract penodol yn arddangos manylion y contract, manylion cyflenwr llwyddiannus, manylion prynwr cydweithredol ac, os yw'n gontract fframwaith, rhestr o'r holl gontractau yn ôl y gofyn a luniwyd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Gweld Contract

Rydych chi yma: Hafan > Cofrestr Contractau > Gweld Contract

Manylion | Cyflenwyr Llwyddiannus | Prynwyr ar y Cyd

### Manylion y Contract

| | |
|---|---|
| Manylion Adnabod: | 84016 |
| Teitl: | Office Equipment |
| Math o Gontract: | SUPPLIES |
| Math o Weithdrefn: | Open |
| Cyfeirnod Hysbysiad o Ddyfarnu Contract: | NOV260043 |
| Cyfeirnod Mewnol: | Portal Ref: 84016 |
| Categori Contract: | C - contract lleol ar ran un prynwr sy'n contractio yn unig |
| Prynwr: | Millstream Associates Ltd (AA16166) |
| Prif God CPV: | N/a |
| Cod(au) CPV Ychwanegol: | |
| A yw'r contract hwn yn Fframwaith: | Na |
| Opsiynau: | ☐ Contract Cydweithredol |
| Disgrifiad: | Office Equipment |
| Tîm Prynu: | N/a |

### Dyddiadau Contract

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Dyfarnwyd: | 01/10/2018 |
| Dyddiad Dechrau: | 15/01/2019 |
| Dyddiad Dod i Ben: | 15/02/2019 |

### Estyniadau i Gontract

| | |
|---|---|
| Dyddiad Dod i Ben Estynedig y Contract: | 15/03/2019 |
| Opsiynau Ymestyn Hiraf Sydd Ar Gael: | 0 (mis) |

### Gwybodaeth Ychwanegol

Gwybodaeth Ychwanegol::

### Manylion cyswllt

| | |
|---|---|
| Enw Cyswllt: | Claire |
| E-bost: | claire@thecouncil.gov.uk |

Ni fydd yr eitemau isod ar gael ar y gofrestr gyhoeddus:

- Nodiadau contract
- Dogfennau contract
- Panel Gweinyddu Contractau

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr adnodd Cofrestr Contractau, cysylltwch â desg gymorth GwerthwchiGymru ar 0800 222 9004 neu help@sell2wales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## ATODIAD A – Deall meysydd y gofrestr contractau

**MANYLION**

**Manylion Adnabod:** Manylion adnabod GwerthwchiGymru y cofnod ar y gofrestr contractau. Mewn achos lle y cafodd y cofnod ei greu yn sgil cyhoeddi hysbysiad dyfarnu, dyma fanylion adnabod yr hysbysiad o ddyfarnu contract. Os yw'r cofnod wedi'i greu â llaw, caiff y manylion adnabod eu neilltuo i'r cofnod ar y gofrestr contractau ar adeg ei gyhoeddi.
**Teitl y contract:** Teitl disgrifiadol y contract. Os yw'r cofnod ar y gofrestr wedi'i greu'n awtomatig o hysbysiad dyfarnu, dyma fydd teitl yr hysbysiad hwnnw. Os caiff ei greu o gofnod â llaw, gall y prynwr ddewis y teitl.

**Math o gontract:** Y math o gontract o ran p'un a yw ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau
**Cyfeirnod Hysbysiad o Ddyfarnu Contract:** Cyfeirnod yr hysbysiad o ddyfarnu contract, os yw'n berthnasol.
**Cyfeirnod Mewnol:** Y cyfeirnod a roddir i'r contract gan y sefydliad prynu.
**Categori Contract:** Dosbarthiad y contract o ran a yw'n gontract lleol, cenedlaethol neu sectoraidd yn ôl y canlynol:
Categori A – contract cydweithredol cenedlaethol
Categori B – contract cydweithredol sectoraidd
Categori C1 – contract cydweithredol rhanbarthol neu leol ar ran mwy nag un prynwr

Categori C – contract lleol ar ran un prynwr yn unig
Categori CO – contract yn ôl y gofyn o fframwaith
**Prynwr:** Y sefydliad prynu sy'n berchen ar y contract.
**Prif God CPV:** Y cod CPV cyntaf a ddarperir ar gyfer y contract.
**Codau CPV ychwanegol:** Unrhyw godau CPV ategol a ddarperir.
**Dyddiad dyfarnu'r contract:** Y dyddiad y cafodd y contract ei ddyfarnu.
**Dyddiad dechrau'r contract:** Y dyddiad y dechreuodd y contract.
**Dyddiad dod i ben y contract (heb gynnwys estyniadau):** Y dyddiad y mae disgwyl i'r contract ddod i ben, heb gynnwys unrhyw opsiynau estyniad nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto.
**Uchafswm cyfnod yr estyniad (misoedd):** Nifer y misoedd y gellir ymestyn y contract. Noder, os caiff estyniadau eu rhoi ar waith, bydd y nifer hwn yn lleihau yn ôl nifer y misoedd y cafodd y contract ei ymestyn.

**Cyfnod talu (misoedd):** Nifer y misoedd ar ôl dyddiad dod i ben swyddogol y contract y byddech fel arfer yn disgwyl eich bod wedi talu'r holl daliadau sy'n gysylltiedig â'r contract i'r cyflenwr/cyflenwyr perthnasol o fewn y misoedd hynny.
**Gwerth y contract neu'r cynnig isaf / cynnig uchaf:** Gwerth y contract neu, os nad yw'n hysbys, y cynnig isaf ac uchaf a wnaed.
**Enw Cyswllt:** Enw'r prynwr sy'n gyfrifol am y contract.
**E-bost Cyswllt:** Cyfeiriad e-bost y prynwr sy'n gyfrifol am y contract.
**Contract Tymor:** Contractau y mae'r gofynion amdanynt yn debygol o fod yn rheolaidd ac sy'n cael eu rhoi ar dendr ar ddiwedd y cytundeb presennol.
**E-bost atgoffa ar gyfer adnewyddu contract:** Y dyddiad y caiff e-bost atgoffa ei anfon i'r cyfeiriad e-bost cyswllt yn atgoffa bod angen adnewyddu'r contract.
**Yn weladwy ar gofrestr gyhoeddus:** P'un a gaiff y cofnod ar y gofrestr contractau ei arddangos ar y gofrestr contractau cyhoeddus, os yw wedi'i droi ymlaen.
**Contract cydweithredol?**: P'un a yw'r contract yn gontract cydweithredol gyda mwy nag un sefydliad prynu yn gymwys i brynu ohono.
**A yw hwn yn gwneud cytundeb fframwaith?:** P'un a yw'r hysbysiad dyfarnu yn llunio cytundeb fframwaith.
**Disgrifiad:** Disgrifiad o'r contract. Os yw'r cofnod ar y gofrestr wedi'i greu'n awtomatig o hysbysiad dyfarnu, caiff hwn ei gymryd o'r maes disgrifiad yn yr hysbysiad. Os caiff ei greu o gofnod â llaw, rhaid i'r prynwr ysgrifennu'r disgrifiad.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**MANYLION LOTIAU**
Os yw'r contract wedi'i rannu'n lotiau, gellir nodi manylion pob lot.

**Teitl:** Teitl y lot.
**Rhif Lot:** Rhif y lot.
**Cynigion a gafwyd:** Y cynigion a gafwyd ar gyfer y lot benodol honno yn ystod y broses dendro.

**MANYLION Y CYFLENWR LLWYDDIANNUS**

Os yw'r cofnod ar y gofrestr wedi'i greu'n awtomatig o hysbysiad dyfarnu, caiff manylion y cyflenwr llwyddiannus eu copïo o'r hysbysiad. Os oes mwy nag un cyflenwr ar y contract, dylid nodi pob cyflenwr.

**Enw:** Enw cwmni'r cyflenwr
**Cyfeiriad 1:** Cyfeiriad cwmni'r cyflenwr buddugol
**Cyfeiriad 2:** Cyfeiriad cwmni'r cyflenwr buddugol
**Tref:** Cyfeiriad cwmni'r cyflenwr buddugol
**Cod Post:** Cyfeiriad cwmni'r cyflenwr buddugol
**Gwlad:** Cyfeiriad cwmni'r cyflenwr buddugol
**Rhif DUNS:** Rhif DUNS y cyflenwr buddugol
**Gwerth y Dyfarniad:** Gwerth y dyfarniad a wnaed i'r cyflenwr penodol hwn
**Rhif Lot:** Os yw'n berthnasol, rhif y lot y mae'r cyflenwr wedi ennill contract ar ei chyfer. Os oes mwy nag un lot wedi'i ddyfarnu i gyflenwr, dylent ymddangos sawl gwaith, sef unwaith ar gyfer pob lot y maent wedi bod yn llwyddiannus ar ei chyfer.